# Y Dinesydd

Mehefin 2013 Rhif 378 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog


# EISTEDDFOD YR URDD 2013

Roedd yr Eisteddfod, a gynhaliwyd eleni yn Sir Benfro, eto'n llwyddiant mawr. Wedi tywydd diflas ddydd Llun cafwyd dyddiau hynod o braf weddill yr wythnos, a daeth plant ac ieuenctid i Foncath o bob rhan o Gymru a rhai o dros y ffin i gystadlu a mwynhau cyfnod pleserus ar faes yr Ŵyl. Mae'n hyfrydwch mawr gennym gyhoeddi bod llu o wobrau, mewn cystadlaethau llwyfan ac eraill, wedi dod i Gaerdydd a'r Fro, a llongyfarchwn yn galonnog bob un a fu'n llwyddiannus.

Estynnir gwahoddiad i'r holl ysgolion anfon eu hadroddiadau a'u lluniau erbyn rhifyn Gorffennaf o'r *Dinesydd*, ac edrychwn ymlaen at gael cynnwys rhestr o'r prif enillwyr o'r brifddinas a'r fro yn y rhifyn nesaf.

## DRAMODYDD IFANC NEWYDD

Dylem gyfeirio'n arbennig at lwyddiant Rhys Penry-Williams o'r Eglwys Newydd, sef enillydd y Fedal Ddrama. Mae Rhys, sy'n 22 oed, yn astudio'r Gyfraith ym Mhrifysgol Nottingham ar hyn o bryd, ac mae'n talu teyrnged i'r arweiniad gafodd e mewn ysgrifennu creadigol yn Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol Gyfun Glantaf. Ar ran y *Dinesydd*, llongyfarchiadau lu!



*Rhys Penry-Williams*

Dwedodd y beirniaid fod gan Rhys "feddwl disglair, treiddgar a heriol". "Mae gan y dramodydd yma ddawn i ysgrifennu barddoniaeth, deialog fachog ysgafn ddoniol, deialog bytiog rythmig ac, ar adegau eraill, deialog araf a dwys." Ond un o nodweddion amlwg y ddrama, meddent, yw'r diffuantrwydd mawr sydd ynddi. *Emanuel* yw enw'r ddrama a gobeithio'n wir y cawn weld ei llwyfannu'n fuan.

Er bod Rhys yn bwriadu hyfforddi'n fargyfreithiwr yn Llundain ym mis Medi, mae ganddo awydd hefyd i ddatblygu ei ddawn ysgrifennu. Mae ganddo rywbeth ar y gweill yn barod, meddai, a dymunwn bob llwyddiant iddo eto yn y dyfodol.

## DYSGWYR Y DDINAS AR Y BRIG

Llongyfarchiadau mawr hefyd i Megan Jones, disgybl 17 oed yn Ysgol Uwchradd Caerdydd ar ennill Medal y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd yn Sir Benfro. Rhan o'i gorchest oedd cyfansoddi cerdd am Lywelyn Ein Llyw Olaf – cerdd afaelgar yn llawn dychymyg, yn ôl y beirniaid, Marian Thomas a Helen Prosser. Roedd yn rhaid iddi hefyd roi cyflwyniad llafar a chael cyfweliad gyda'r beirniaid.



*Megan yn derbyn Medal y Dysgwyr ar ddydd Mawrth yr Eisteddfod*

"Does neb yn siarad Cymraeg gartre," meddai Megan, "felly mae arna i ddyled fawr i fy athrawon a'r ysgol. Yn ffodus, dw i'n gallu cymdeithasu gyda rhai ffrindiau yn Gymraeg."

Yn ail yn y gystadleuaeth roedd Jenni Ferris, hefyd o Ysgol Uwchradd Caerdydd, ac yn drydydd, Hannah Beare o Ysgol Uwchradd Fitzalan. Llongyfarchiadau iddynt hwythau hefyd.

## BARDD 'PERFFORMIADOL' YN FARDD PLANT

Bardd Plant Cymru nesaf yw Aneirin Karadog. Mae e eisoes yn wyneb cyfarwydd iawn fel cyflwynydd poblogaidd ar *Heno*, a *Sam ar y Sgrin* ar S4C. Bu hefyd yn aelod o'r grŵp pop enwog 'Genod Droog', a'r band hip-hop 'Y Diwygiad'. Mae'n siŵr bod y disgrifiad ohono fel 'bardd perfformiadol' yn tarddu o'i allu i 'rapio' – a hynny mewn pum iaith! Mae'r holl ddoniau hyn, yn ogystal â'i ddawn ddiamheuol fel bardd, wrth gwrs, yn gymwysterau ardderchog ar gyfer ei swydd newydd. Dymunwn bob llwyddiant iddo.

Meddai Lleucu Siencyn, Prif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru: "Rydym yn edrych ymlaen at weld sut y bydd yr amryddawn Aneirin Karadog yn defnyddio ei sgiliau fel artist rap, cynganeddwr, cyflwynydd teledu ac ieithydd i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o feirdd bach Cymru."



*Aneirin Karadog*

Cyhoeddwyd ym mis Mai fod cyfrol gyflawn gyntaf Aneirin, *O Annwn i Geltia* (Barddas), wedi cyrraedd Rhestr Fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn 2013.

Yn frodor o Bontypridd, mae Aneirin bellach yn byw ym Mhontyberem gyda'i wraig Laura a'i ferch flwydd oed, Sisial.

***Llongyfarchiadau i bawb yn ardal yr Eisteddfod eleni am eu llafur a'u llwyddiant yn trefnu Gŵyl mor lwyddiannus ar ein cyfer fel cenedl.***

# Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Eleri Melhuish**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Dafydd Saer**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Gorffennaf erbyn 27 Mehefin i:
1 Heol Chapell, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2DA
Ffôn: 02921 154535
dafsaer@yahoo.co.uk

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf, Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**

## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri
**COFFEE LOUNGE**, Llanisien

# Noson Wobrwyo CRICC 2013

Daeth tymor arall i ben ac ar noson braf, yr 16eg o Fai, cynhaliwyd Noson Wobrwyo CRICC. Y ffaith fod y ddau Rhys, sef Patchell a Priestland, yn bresennol i gyflwyno tlysau oedd yn creu'r rhan fwyaf o'r cyffro ymysg yr aelodau. Gwelir Patchell yn gyson yn hyfforddi gyda CRICC, lle bu yn aelod yn ystod ei flynyddoedd cynnar. Cafwyd cyfle i'w longyfarch am gael ei wahodd i garfan Cymru sy'n teithio i Siapan y mis hwn. Ar yr un pryd, cydymdeimlwyd â Priestland a gollodd ei le oherwydd anaf. Gwerthfawrogwyd eu presenoldeb yn fawr iawn.

Cyflwynwyd, fel arfer, ddau dlws ym mhob oedran, sef Tlws yr Hyfforddwr a Chwaraewr y Flwyddyn. Dyma restr o'r enillwyr am 2012-13 :-

| *Carfan* | *Tlws yr Hyfforddwr* | *Chwaraewr y Flwyddyn* |
|---|---|---|
| <7 | Tomos Hall | Elen Price |
| <8 | Ifan Cox | Henry Nelson |
| <9 | Owain Chapman | Bob Hall |
| <10 | Iwan Johnes | Noah Linskey |
| <11 | Mathew Jones | Daniel Thomas |
| <12 | Jake O'Shea | Joseff Atkinson |
| <13 | Osian Morris | Ioan Edwards |
| <14 | Rhys Jones | Lewis Sharpe |
| <15 | Tomos Ifan | Frazer Hicks |



*Rhys Priestland; Ifan Cox*



*Tomos Hall; Rhys Patchell; Elen Price*



*Ioan Edwards; Rhys Patchell; Osian Morris*

**Y noson ganlynol cynhaliwyd Noson Wobrwyo CWINS CAERDYDD.** Y llynedd Steffan Elis oedd Chwaraewr y Flwyddyn, ond eleni cyn aelod o CRICC, ei frawd Siôn Elis, gafodd ei ddewis gan y tîm hyfforddi, yn ogystal â grŵp o gefnogwyr ffyddlon, fel Chwaraewr y Flwyddyn CWINS CAERDYDD. Derbyniodd dlws y Clwb a gwobr o "ddolennau llewys" (cyfflincs) oddi wrth gefnogwyr y CWINS. Mae'r llun yn dangos Ashley Williams (mab y diweddar Bleddyn a adnabuwyd fel "Tywysog y Canolwyr") wedi iddo gyflwyno'r wobr i Siôn.



*Ashley Williams; Siôn Elis*

Bydd CWINS CAERDYDD yn chwarae eto yn Adran 3, Cynghrair Swalec U.R.C. y tymor nesaf. Gyda help chwaraewyr newydd o safon mae gobaith anelu am ddyrchafiad. Felly, os ydych am chwarae ar y lefel yma, a'r gallu gennych, bydd croeso yn eich aros ar Faes Diamond.

## RHODDION I'R DINESYDD

Ers dechrau'r flwyddyn mae'r Dinesydd wedi derbyn rhoddion hael gan y canlynol: Eglwys Ebeneser, Eglwys Minny Street, Clwb y Diwc, Gwilym Roberts, EHO Evans, Norman Williams, Cylch Cinio Merched Caerdydd.

Dymuna'r Pwyllgor ddiolch yn fawr iawn am y gefnogaeth werthfawr.

# Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Daeth ein blwyddyn i ben Nos Lun Mai 20ain gyda chyfarfod o ddwy ran. Yn gyntaf, Neville a Rhys yn rhannu sylwadau ac, yn ail, ein Cyfarfod Blynyddol. Roedd gan Neville amryw o 'bigion', yn cynnwys, (a) sylw llym ar etholiad y Tywysog Andrew yn Gymrawd y Gymdeithas Frenhinol (F.R.S.), yn seiliedig ar drefn ethol amheus iawn a (b) nodi ateb Cyfarwyddwr Cyffredinol CERN mewn cynhadledd i'r wasg ym mis Gorffennaf y llynedd am y Boson Higgs i'r cwestiwn, 'Yes, but what IS the Higgs Boson?'. A'r ateb? 'There is no metaphor'. (c) da gweld rhaglen deledu yn ddiweddar ar BBC2 pan soniodd Bill Bailey, cerddor a digrifwr, am ei daith yn olrhain ychydig o hanes Alfred Russel Wallace, gan roi sylw amlwg i'r ffaith hanesyddol ei fod yntau a Charles Darwin bellach yn cael eu cydnabod yn gyd-ddarganfyddwyr Damcaniaeth Esblygiad.

Soniodd Rhys am y digwyddiad brawychus yn Rwsia yn ddiweddar pan laniodd awyrfaen *(meteorite)* gan beri llawer o ddifrod. Cyfeiriodd hefyd at ddigwyddiadau tebyg yng Nghymru.

Yn y Cyfarfod Blynyddol y prif benderfyniad ar gyfer aelodau ac ymwelwyr oedd ein bod yn mentro ar drefn cyfarfodydd ychydig yn wahanol, sef, cychwyn ein rhaglen ym mis Medi a dileu cyfarfod mis Rhagfyr. Mae Rhys a Cerian (er ei bod wedi torri ei choes yn ddiweddar) wedi dechrau llunio rhaglen newydd. Un cyfarfod fydd yn torri tir newydd i ni fydd cael awdur yn dod i siarad am ei lyfr. Hyn ym mis Tachwedd pan fydd Ieuan Davies (gweinidog Minny Street gynt) yn rhannu ei brofiad o baratoi'i gyfrol am fywyd a gwaith Syr John Meurig Thomas. Dewch yn llu.

# Camerata Wales yng Nghaerdydd

Cafwyd cyngerdd penigamp yn Neuadd Dewi Sant ym mis Mai gan y Gerddorfa Siambr, *Camerata Wales*, a arweiniwyd (ac a sefydlwyd) gan Owain Arwel Hughes. Yn perfformio gyda nhw oedd Cantorion Ardwyn a Chôr Polyffonig Caerdydd ynghyd â dau unawdydd ifanc o'r Academi Llais Rhyngwladol, Moses Mackay o Seland Newydd a Siobhan Stagg o Awstralia. Eitemau amrywiol a gafwyd yn yr hanner cyntaf gyda'r côr a'r gerddorfa'n plethu'n wych yn y darnau bywiog fel 'Zadok the Priest' (Handel) a 'The Heavens are Telling' (Haydn), ac yn enwedig yn y darnau tawel fel *Ave Verum Corpus* (Mozart). Yn yr ail hanner cafwyd mynegiant teimladwy a sensitif o'r *Requiem* gan Fauré.

Yn ôl y perfformiad hwn mae'n amlwg mai cerddorfa arbennig iawn ydy hon sy'n llawn haeddu'r clod mae wedi ei gael eisoes gan y beirniaid cerdd a'r cyhoedd. Fe'i clywir yn aml ar Classic FM, a'r gobaith yw ei chlywed yn fyw yn fwy aml ledled Cymru mewn mannau lle na all cerddorfeydd mawrion fynd iddyn nhw. Os clywch bod y gerddorfa hon yn perfformio'n fyw gwnewch ymdrech lew i fynd i'w chlywed – bydd yn brofiad gwerth chweil.

**Calan McGreevy**

# *Canmil Diolch*

**Gair byr, ond diffuant, o ddiolch calon yw hwn. Nid rhwydd o waith yw cynnal unrhyw bapur bro, yn gyson o fis i fis. Y mae'n gofyn am ymroddiad nodedig nifer o weithwyr. Ymroddiad, gweledigaeth, a dyfalbarhad. A dyna sydd wedi nodweddu cynheiliaid brwd *Y Dinesydd* o'r dechrau un. Mawr iawn ein dyled.**

Mor hyfryd i mi yn awr yw cael cyfeirio at y cymwynaswyr hyn a diolch am eu llafur cariad: y golygyddion; y calendr misol, gwir werthfawr, o dan ofal Dr E Wyn James; y colofnwyr; y gohebwyr yn adrannau crefydd, ysgolion, cymdeithasau, Menter Caerdydd a chwaraeon; awduron pytiau o newyddion, llythyrau, erthyglau ac ysgrifau achlysurol; adolygwyr llyfrau; y casglwr hysbysebion; y dosbarthwyr; ac, wrth gwrs, y prynwyr a'r darllenwyr – a phawb arall. Pawb sydd ag unrhyw ran yn llwyddiant papur bro y Brifddinas.

Rai blynyddoedd yn ôl, fy mraint arbennig i oedd cael cyfrannu cant o erthyglau mewn colofn fisol/deufisol, 'Llên a Llafar Bro Hiraethog', i bapur bro fy ardal enedigol i yn Uwchaled, sef **Y Bedol**. Mi wn o'r gorau, felly, mor gwbl hanfodol yw'r ymroddiad a'r dalifyndrwydd y mae ar gyfranwyr cyson i unrhyw bapur bro ei angen.

A dyma rifyn mis Mai o'r *Dinesydd* wedi ein cyrraedd eisoes, ac arlwy mis Mehefin yr un modd, bid siŵr, erbyn y byddwch yn darllen y nodyn hwn. I gloi, felly, dyma roi sylw i ddau berson sydd wedi cyfrannu i rifyn Mai. Dau sydd â chysylltiad agos â'i gilydd. A dau gymwynaswr.



*Colin Murphy*

Fe fyddwn oll yn gwybod yn dda am un ohonynt (ynghyd â'i golofn fisol yn *Y Dinesydd*), sef **Gwilym Roberts**. **Colin Murphy** yw'r ail berson, awdur yr ysgrif 'Ôl Lwybrau' yn rhifyn Mai. Brodor o Drelái, Caerdydd, yw Colin, ac wedi dysgu'r Gymraeg. Yn yr ysgrif hon y mae'n mynegi'i ddyled fawr i dri o'i athrawon: Gwilym Roberts, Falmai Griffiths, ac yna'n ddiweddarach, Ken Kane. Meddai am Gwilym:

> 'Ym Medi 1967 dechreuais i yn Ysgol Gynradd Trelái a gadewais yn haf 1971. Yr hybarch Gwilym Roberts, Rhiwbeina, oedd yr athro Cymraeg yno, ac alla i ddim gorbwysleisio na gor-ddweud ei gyfraniad i f'addysg yr adeg honno a thros dreigl amser. Unwaith yn y pedwar amser mae cwrdd â rhywun sy'n mynd i ddylanwadu'n gryf ar eich bywyd, ac i mi, Gwilym yw'r dyn hwnnw. Dyma, yn ddiau, oedd y tro cyntaf imi glywed yr iaith Gymraeg, a chofiaf imi ddwlu ar sŵn yr iaith. Fe ddysgon ni ganeuon fel 'Mi welais jac-y-do', 'Lawr ar lan y môr', ac 'Mae gen i het dri chornel', ac yn y blaen. Dysgais i rifo, a gosodwyd sylfaen gadarn o ymadroddion y bydda i'n dal yn eu defnyddio am flynyddoedd i ddod. Gorsymleiddio yw dweud mai nod Gwilym oedd nid yn unig dodi ambell ymadrodd ym mhennau'r disgyblion, ond, yn hytrach, plannu hadau fyddai'n dwyn ffrwyth mewn cenhedlaeth neu ddwy, ac yn gwneud yn sicr bod y plant yn gweld gwerth yr iaith ac yn gwerthfawrogi, ac yn hyn o beth, fe lwyddodd yn gampus.'

Caf yr hyfrydwch o fod yn gyfaill ac yn gydweithiwr i Colin yn Amgueddfa Werin Cymru. Am flynyddoedd ef a fu'n gyfrifol am y dosbarthiadau dysgu Cymraeg yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac yn Sain Ffagan. Cyflawnodd waith ardderchog iawn, ac fel y bu iddo ef ddiolch i Gwilym Roberts yn rhifyn Mai o'r *Dinesydd*, dyma gyfle i minnau, ar ran yr holl ddarllenwyr a'i gyn-ddisgyblion, i ddiolch o galon iddo yntau am ei gyfraniad cyfoethog.

Ni fu Colin yn dda ei iechyd yn ddiweddar. Dymunwn iddo iachâd llwyr a buan a phob bendith.

**Robin Gwyndaf**

# Teithiau Haf Menter Caerdydd

1/6/2013 — **£12**

**Gŵyl y Gelli**
Gadael Caerdydd 9.30am
Gadael Y Gelli 6pm

11/6/2013 — **£12**

**Talacharn**
Gadael Caerdydd 9.30am
Gadael Talacharn 4pm

3/7/2013 — **£22**

**Wimbledon**
Gadael Caerdydd 7.30am
Gadael Wimbledon 7.30pm

17/7/2013 — **£12**

**Gerddi Botaneg**
Gadael Caerdydd 10am
Gadael Gerddi Botaneg 3.30pm

23/7/2013 — **£10**

**Sioe Frenhinol Cymru**
Gadael Caerdydd 8am
Gadael Llanelwedd 6pm

10/8/2013 — **£10**

**Gŵyl Jazz Aberhonddu**
Gadael Caerdydd 10.30am
Gadael Aberhonddu 6pm

15/8/2013 — **£10**

**Tintern a Chas-gwent**
Gadael Caerdydd 10am
Gadael Cas-gwent 3.30pm

21/8/2013 — **£5**

**Gerddi Dyffryn a'r Fro**
Gadael Caerdydd 10.30am
Gadael y Fro 4pm

21/9/2013 — **£12**

**Gŵyl Fwyd y Fenni**
Gadael Caerdydd 10am
Gadael Y Fenni 5pm

- Bysiau moethus 'Creigiau Travel' gyda tŷ bach a DVD
- Prisiau uchod am daith bws yn unig (return)
- Rhaid archebu a thalu o flaen llaw. Am fwy o wybodaeth:

**www.mentercaerdydd.org**
**angharad@mentercaerdydd.org**
**02920 689888**

**@mentercaerdydd**
**menter.caerdydd**



# Colofn G.R.

Erbyn i'r erthygl hon weld golau dydd byddwn o fewn pythefnos i ddathlu dydd hwyaf y flwyddyn sef yr 21 o'r mis! Mae 2013 yn pasio fel y gwynt a rhwng pawb a phopeth mae'r misoedd hyn yn rhai prysur ar y naw rhwng Eisteddfod yr Urdd, Gŵyl Tafwyl, Gŵyl Ifan, Cyhoeddi Eisteddfod Llanelli 2014, Sioe Llanelwedd, Tenis Wimbledon, teithiau rygbi i Awstralia a Siapan, Eisteddfod Llangollen, Gŵyl y Glaniad ac Eisteddfod Dinbych. Gobeithio bydd y tywydd yn caniatáu i ni fwynhau'r holl ddigwyddiadau hyn heb fod angen ambarel a chôt law a *wellingtons*! Mae hi wedi bod yn Aeaf hir a chaled a'r Gwanwyn wedi bod yn hwyr iawn yn cyrraedd, ond rwan rhaid byw mewn gobaith am dywydd hafaidd i godi ein calonnau cyn dyfodiad yr Hydref a'r Gaeaf i'n blino unwaith eto!

Yn ddiweddar cyhoeddwyd ffigyrau nifer o wrandawyr Radio Cymru a'r gofid oherwydd y gostyngiad a phawb yn mynegi barn am y sefyllfa. O safbwynt yr ifanc maen nhw'n rhy brysur yn byseddu eu ffonau symudol a'u cyfrifiaduron ac ati i wrando ar rywbeth mor hen ffasiwn â radio tra mae'r teuluoedd Cymraeg eu hiaith wedi lleihau, a rwan ceir mwy o deuluoedd dwyieithog. Felly, er y gostyngiad rhaid bod yn ddiolchgar bod dros gan mil o siaradwyr yn dal i werthfawrogi'r gwasanaeth.

Mae'r nifer o bobl sy'n derbyn papurau Saesneg megis *Western Mail* ac *Echo*, wedi gostwng ac mae mwyafrif y genedl, os ydyn nhw'n prynu unrhyw bapur newydd yn prynu'r papurau Llundeinig ac felly yn llai ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ddydd i ddydd.

Siomwyd cefnogwyr yr iaith yn ddirfawr gan ffigyrau Cyfrifiad 2011 pan gyhoeddwyd mai ond 19% o'r genedl sy'n rhugl bellach a bod yr ardaloedd mwyaf Cymreig wedi gweld gostyngiad sylweddol. Ond mae llygedyn o obaith gan fod mwy o blant yn siarad Cymraeg nag o oedolion erbyn hyn sy'n dangos effaith lesol yr holl ysgolion Cymraeg eu cyfrwng ledled Cymru. Heb yr ifanc 'does dim gobaith i unrhyw iaith oroesi.

Yr hyn sy'n peri dychryn ydy sylweddoli bod dros 800,000 o'r tair miliwn o boblogaeth Cymru wedi eu geni y tu allan i Gymru. Mae'r holl fewnfudwyr yn siwr wedi cael dylanwad er gwaeth ar sefyllfa'r iaith ac ar fywyd cymdeithasol a gwleidyddol y genedl!

Er gwaethaf yr holl broblemau sy'n ein hwynebu o safbwynt yr iaith y syndod ydy bod y bywyd llenyddol yn ffynnu, ac mae toreth o lyfrau Cymraeg yn dal i lifo o Weisg Cymru o flwyddyn i flwyddyn, ac mae'r arlwy yn amrywiol ac o safon. Yn ddiweddar cyhoeddwyd nofel dros bum cant o dudalennau gan yr awdur William Owen Roberts, sef, *Paris*, ac mae'r Prifardd a'r ysgolhaig Alan Llwyd wedi cyhoeddi cofiant i R Williams Parry heb sôn am nifer o gyfrolau barddoniaeth a llyfrau lu i blant.

Mae Meic Stephens, y llenor o'r Eglwys Newydd, wedi cyflawni campau yn hytrach na champ eleni trwy gael dwy gyfrol o'i eiddo yn Gymraeg a Saesneg wedi eu henwi ar restri byr y Wobr Lenyddol "Llyfr y Flwyddyn 2013". Llongyfarchiadau iddo. Cyhoeddir yr enillwyr mewn seremoni yn y Coleg Cerdd a Drama Caerdydd ar y 18fed Gorffennaf.

Pan on i'n blentyn nid oedd sôn o gwbl am deledu a felly roeddwn yn darllen llawer. Yn ddiweddar penderfynais i ail-ddarllen nofel dditectif o'r enw *Dirgelwch Gallt y Ffrwd* gan E Morgan Humphreys, a gyhoeddwyd nôl yn 1938! Dyma un o'r llyfrau cyntaf i mi ei ddarllen yn Gymraeg pan oeddwn i tua 15 oed! Cyn hynny bues i'n darllen llyfrau Saesneg megis *Biggles* a *Just William*, llyfrau Arthur Ransome ac Enid Blyton a chlasuron megis *Treasure Island*, *Swiss Family Robinson*, *Black Beauty* a llu o lyfrau cowbois a ditectif! Ond cydiodd nofel E Morgan Humphreys yn fy nychymyg a chofiaf ddarllen y nofel yn awchus dros frecwast cyn dal y trên i Ysgol Ramadeg y Bechgyn, Penarth! Er bod y nofel wedi dyddio tipyn mae rhaid i mi gyfaddef i mi gael blas ar y cynnwys unwaith eto, yn arbennig gan fy mod i wedi anghofio sut oedd y stori yn diweddu! Rwy'n siŵr byddai'n gwneud ffilm dda gan fod digon o gyffro ynddi!


**Diwrnod Hanes Capeli Cymru**
**06.07.13 10.30yb-3.30yp**
•
**Diwrnod Hanes Chwaraeon**
**27.07.13 10.30yb-4.00yp**
•
**Canolfan Soar, Merthyr Tudful**
**I archebu lle: 01685 722 176**




# Ôl-Lwybrau

Rydw i wedi byw yng Nghaerdydd fwy na hanner f'oes erbyn hyn. Fe ddes i Goleg Cerdd a Drama Caerdydd yn nechrau'r 60au a chael swydd o gynorthwyydd llwyfan gyda *The Welsh Theatre Company* yn syth ar ôl gadael. Bryd hynny, gan fod gymaint o theatrau ledled y DU yn cynnal eu cwmnïau parhaol, roedd yn bosib i actorion ifanc gael eu trwytho yn y gwaith a dysgu bod mwy i gyflwyno drama i gynulleidfa na dysgu llinellau a chamu ar lwyfan yn nosweithiol. Bûm yn gynorthwyydd cefn llwyfan yn gyfrifol am y 'props' a'r dillad, a gwneud te i ambell actor mympwyol, am gyfnod cyn cael rhan fach yn y ddrama nesa, wedyn rhan fwy, ac o'r diwedd un o'r prif rannau mewn cynhyrchiad.

Roeddwn yn un o'r chwe actor a wahoddwyd i ymuno â Chwmni Theatr Cymru yn 1965. Buom yn teithio ledled Cymru ym mhob tywydd, a phan fyddem yn ymweld ag Aberystwyth un ai ym mis Chwefror neu Dachwedd byddai'r gwynt a'r glaw ar eu ffyrnicaf, a ninnau'n aros mewn gwestai eitha cyntefig eu darpariaeth. Yn wir, dw i wedi diodda dros y ddrama yng Nghymru! Hefyd, yn y cyfnod yma, bûm mewn nifer o ddramâu cyfres y BBC a chael ymddangos mewn un o ddramâu Saunders Lewis.

Roedd y 70au yn amser prysur hefyd. Priodas a chael plentyn yn '74; cael y brif ran yn nrama Saunders Lewis, *Merch Gwern Hywel*, ar lwyfan ac ar y teledu ac, yn yr un flwyddyn, cael ymddangos yn y bennod gynta o gyfres newydd sbon gan y BBC o'r enw *Pobol y Cwm*. Profiadau amheuthun. Ac ar ddiwedd y ddegawd honno cefais y fraint o chwarae rhan y Fonesig Margaret Lloyd George yn *The Life and Times of Lloyd George*.

Rydw i'n credu'n daer y dylem warchod buddiannau ein gilydd yn y maes yma, fel mewn meysydd eraill. Ymaelodais ag *Equity*, undeb actorion, yn syth o'r coleg a bu nifer ohonom yn brwydro i gael tegwch i actorion oedd yn dymuno gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y pryd, y teimlad gan y cwmnïau darlledu oedd na allent dalu yr un cyflog i ni pan yn gweithio yn y Gymraeg â phe baem yn gweithio yn Saesneg gan fod y darlledu Cymraeg wedi ei gyfyngu i Gymru yn unig. Diolch byth, fe newidiodd y sefyllfa a chafwyd tegwch a chyfartaledd.

Fel y cyfeiriais eisoes, mae sawl uchafbwynt wedi bod a nifer helaeth ohonynt pan oeddwn yn gwneud gwaith radio – rydw i'n wrandawraig bybyr hefyd. Mae lwc yn chwarae rhan yng ngyrfa pob actor ac, yn wir, rydw i wedi bod yn ffodus iawn. Er enghraifft, pan adawodd Megan Gwmderi yn '95, i Landudno yr aeth hi ac nid i Ebargofiant – a dyma hi nôl yng Nghwmderi ers cwpwl o flynyddoedd, bellach, ac yn mwynhau pob munud yno!

**Lisabeth Miles**

**Gwefan Y Dinesydd: www.dinesydd.com**

# COLOFNYDD Y MIS

## Rhys Hartley

Gyda'r Arweinydd Goruchaf, Kim Jong-Un, yn bygwth tanio arf nuclear tua'r De neu'r Unol Daleithiau, roedd Mam yn erfyn arna i a'n nhad i aros ym Meijing yn hytrach na hedfan i Pyongyang. Cawsom ein sicrhau gan y cwmni teithio bod cynllun yn ei le i ffoi o'r wlad petai argyfwng a felly, ynghyd a grŵp o 13 arall, penderfynom bod ymweliad i'r wlad feudwy werth y risg.

Trwy gydol ein taith, fe'n cludwyd i ymweld â lleoliadau a sefydliadau 'delfrydol' – fferm gydweithredol, ffatri poteli dŵr ac ysgol gynradd. Roedd yr Arlywydd Tragwyddol, Kim il-Sung, neu ei fab, y Cadfridog Tragwyddol, Kim Jong-il, wedi ymweld â bron pob un er mwyn gosod sêl bendith y wladwriaeth arnynt.

Roedd hi'n benblwydd yn 101 ar Kim il-Sung, felly 'doedd dim ffermwyr ar y fferm na gweithwyr yn y ffatri. Yn yr ysgol, fodd bynnag, cawsom ein sbwylio gan berfformiad trawiadol o gerddoriaeth a dawnsio y byddai'n rhoi cweir i unrhyw aelwyd yn Eisteddfod yr Urdd.

Mae propaganda, wrth gwrs, yn chwarae rôl enfawr ym mywyd dyddiol pobl Corea. Ar bob adeilad ac ym mhob stafell mae delweddau o'r arweinwyr tragwyddol i'w gweld, heb sôn am y cerfluniau efydd enfawr sy'n goruchwylio pob pentref, tref a maesdref. Mae posteri ym mhob ffenest a ffilmiau propaganda ar y teledu drwy'r amser. Roedd menyw ddychrynllyd yn darllen y newyddion ac yn gweiddi straeon ynglŷn â'r fyddin neu ryfel yn erbyn yr 'imperialwyr' Americanaidd, gyda chlipiau o ymarferiadau milwrol yn llenwi pob bwlch yn yr amserlen.

Mae hanes yr 'imperialwyr' ar benrhyn Corea yn eitha' cywilyddus, Siapan ac yna America, ac mae'n hawdd deall o ble y daw paranoia y bobl gyffredin, yn enwedig tra bod 30,000 o filwyr UDA yn dal i fod yn y De. Serch hynny, mae'n rhaid cofio'r newyn erchyll yn y 90au cynnar a ddaeth yn rhannol oherwydd polisi'r wlad o flaenoriaethu ariannu. Roedd y bobol y cawsom ni siarad â nhw yn gefnogol i'r polisi yma. Roedden nhw'n wirioneddol ofni ymosodiad arall ar eu gwlad.

Roedd y brif-ffordd rhwng Pyongyang a Seoul, ar ein ffordd i'r DMZ (y 'De-Militarised Zone') yn wag. Doedd dim arwydd o weithgaredd gan y fyddin. Yn hytrach, roedd y 'miliwn' o filwyr yn brysur yn y brifddinas yn plannu coed neu'n adeiladu fflatiau. Byddai ymosod ar y Gogledd yn rhwydd, ond pam byddai'r De yn dymuno gwneud hynny? Pam cael 23 miliwn o ffoaduriaid tlawd yn dibynnu arnynt? Rhaid bod y wladwriaeth yn gwybod bod ymosodiad yn annhebygol ond maent yn parhau i borthi anwireddau trwy bropaganda. Ymddengys fel petaent wedi llwyddo i uno'r bobl tu cefn i Blaid y Gweithwyr a'u hymfyddino yn erbyn y gelyn. Ni ddaw'r newid mae'r gorllewin yn erfyn arni yn y dyfodol agos, mae arna'i ofn.

# Newyddion...


*Garmon ab Ion a Guto John*

Daeth llwyddiant i ran dau o fechgyn y brifddinas mewn cystadleuaeth rwyfo i barau ym Mynwy ddydd Sul Mai 26ain. Trechwyd Clwb Rhwyfo Dinas Abertawe yn y rownd gyntaf, Ysgol Gyfun Mynwy yn y rownd gynderfynol cyn iddynt faeddu bechgyn Clwb Rhwyfo Caerwrangon yn y ras derfynol. Mae Garmon yn ddisgybl ym Mhlasmawr a Guto yng Nglantaf a'r ddau yn cyd-rwyfo dros Glwb Rhwyfo Dinas Caerdydd.

## Cadair Eisteddfod i Bedwyr ab Ion

Llongyfarchiadau i Bedwyr sy'n ddisgybl Bl 11 yn ysgol Plasmawr a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth y gadair yn Eisteddfod Fawreddog Prifysgol Rhydychen gyda cherdd ar y thema 'Dŵr'. Y beirniad oedd y Prifardd Mererid Hopwood, Caerfyrddin.


*Bedwyr ab Ion*

Atgyfodwyd yr Eisteddfod wedi bwlch o dros saith deg mlynedd gan gaplan presennol Cymdeithas Dafydd ap Gwilym sef Carwyn Graves, cyn-ddisgybl yn ysgol Glantaf.

## Dau Gyn-ddisgybl yn Serennu

Gwyn Morris, gynt o Borthmadog, ydy athro Ymarfer Corff Ysgol Uwchradd yr Eglwys Newydd a ddysgodd Sam Warburton a Gareth Bale. Dymunwn yn dda i Sam fel Capten Tîm y Llewod ac i Gareth Bale yn ei yrfa yntau yn y byd pêl-droed.

## Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â theulu y diweddar Rhodri Rhys Jones, gynt o Bow Street, a fu farw'n dawel yn ei gartref. Bu'r angladd yng Nghapel y Garn, Bow Street, Aberystwyth ar y 10 Mai.

## Cyfarfod Blynyddol

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cangen y De o Gymdeithas Cymru-Ariannin yn festri Salem, Treganna, ar nos Fawrth, Mai 7fed, pan gafwyd anerchiad gan y llenor Gareth Miles ar ei waith yn cyfieithu nofel Sbaenaidd i'r Gymraeg. Yna etholwyd y swyddogion canlynol i drefnu gwaith y gangen, sef Miriam Tilsley yn Gadeirydd, Eiry Palfrey yn Ysgrifennydd a Bob Pugh yn Drysorydd.

## Codi arian i Gymorth Cristnogol

Daeth llond y neuadd ynghyd yn Ysgol Gyfun Bro Edern ar gampws Ysgol Gyfun Glantaf ar nos Iau, Mai 16eg, i wrando ar y canwr Tecwyn Ifan, a chafwyd noson hyfryd yn ei gwmni. Trefnwyd yr achlysur gan eglwys Minny Street.

## Canwr opera gynt o Riwbeina

Mae'r canwr bâs Richard Wiegold, gynt o Riwbeina yn un o'r unawdwyr yn yr opera 'Wagner Dream' gan y cyfansoddwr Jonathan Harvey a berfformir gan Gwmni Opera Cenedlaethol Cymru yn ystod yr haf. 'Roedd tad y canwr, y diweddar Jim Wiegold, yn canu bas yng Nghôr Aelwyd Hamdden Caerdydd. Dechreuodd Richard ei yrfa fel canwr soddgrwth ond yn 30 oed trodd at ganu.

## Cyngerdd Cefnogi Shelter Cymru

Dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina cynhaliwyd cyngerdd gan rai o Gôr Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghapel Bethel, Rhiwbeina ar nos Lun, Mai 20fed. Daeth llond y capel i fwynhau gwledd o ganu gan y bobl ifanc hyn.

## Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Llongyfarchiadau i'r disgyblion isod o Gaerdydd a'r Cylch, ar gael eu henwebu ar gyfer Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gychwyn ym Medi 2013. Mae'r ysgoloriaeth yn werth £3,000 ac ar gael i fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf dwy ran o dair o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg ar draws Prifysgolion Cymru. Bydd y manylion ymgeisio ar gyfer 2014 ar gael ar wefan y Coleg ym mis Medi - www.colegcymraeg.ac.uk

Rhun Wmffre Dafydd, Ysgol Bro Morgannwg
Anna Catrin Powys, Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr
Gwilym Harri Tudur, Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf

## Priodas Siân Meinir a Dean Wright

Ar bnawn Sul, Mai 5ed cafwyd achlysur hyfryd dros ben, a'r tywydd ar ei orau, pan briodwyd Siân Meinir a Dean Wright yng nghapel Bethel, Penarth. Fel y gwyddom mae Siân yn un o gantorion amlycaf Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru a mwynhawyd cyfraniadau cerddorol gwych yn y gwasanaeth, yn cynnwys pedwarawd yn cyflwyno'r Ddyfodgan o *Lohengrin*. Y Parchg Kevin Davies a weinyddodd y gwasanaeth priodasol a Tecwyn Owen, tad Siân, a gyfansoddodd yr emyn cyntaf a ganwyd ar y dôn Blaenwern. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan Huw Dylan, brawd Siân, a cherdd Edward Monkton *A Lovely Love Story* gan Patrick King.

Yn ystod seibiant y cofrestru, difyrrwyd y gwahoddedigion gan gyfeillion operatig. Gwasanaethwyd gan Alwena ar yr organ a chan Eirian Owen i'r cantorion ar y piano. Dymuniadau gorau i Siân a Dean a boed bendith ar eu huniad priodasol.


**FFLAT WEDI EI DODREFNU AR OSOD YN ARDAL GRANGETOWN**

Dwy ystafell wely ddwbl, lolfa, cegin ac ystafell 'molchi.

**Pris £575 y mis.**

Am ymweliad cysylltwch :
Rhodri Jones, 8, Heol St Cyres, Penarth CF64 2WQ
029 20704965 / 07770559961
e bost: rhodrijones@live.com

# YSGOLION

## Ysgol y Wern

### Pencampwyr Cymru

Llongyfarchiadau i dîm merched pêl-droed yr ysgol a ddaeth i'r brig yng Nghystadleuaeth Pêl-droed Genedlaethol yr Urdd a gafodd ei chynnal yn Aberystwyth ar Fai 11eg. Yn dilyn sgorio pedair gôl yn y rownd derfynol cawsant eu coroni yn bencampwyr ar ddiwedd y twrnament. Da iawn chi ferched.

Fe fydd ein tîm Cwis Llyfrau yn teithio i Aberystwyth hefyd fis nesaf pan fyddant yn cystadlu yn Rownd Genedlaethol y Cwis Llyfrau. Llongyfarchiadau i blant Blwyddyn 6 a enillodd y rownd sirol eleni. Pob lwc i chi nawr yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i dîm Blwyddyn 4 a ddaeth yn drydydd yn y sir.



*Tîm Pêl-droed y Merched*

## Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd

### Llwyddiant y Cwis Llyfrau

Llongyfarchiadau mawr i dim Cwis Llyfrau Bl 3 a 4 – pencampwyr Caerdydd am drafod a chyflwyno llyfrau Cymraeg! Edrychwn ymlaen nawr at y rownd Genedlaethol yn Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i dim Bl 5 a 6 a gipiodd yr ail wobr yn y Sir. Da iawn i bob aelod o'r staff sydd wedi cyfrannu at lwyddiant arbennig y timau Cwis Llyfrau eleni.

### Cwrs Preswyl Blwyddyn 3

Cafwyd llawer o hwyl yn ddiweddar pan aeth disgyblion Blwyddyn 3 i aros dros nos yng ngwersyll yr Urdd ym Mae Caerdydd. Llanwyd deuddydd llawn gyda gweithgareddau hwylus yn cynnwys trip cwch, bowlio, helfa Fathemateg ac ymweliadau â'r Senedd a *Techniquest*. Rhaid canmol ymddygiad y plant, 'roedd yn bleser bod yn eich cwmni – da iawn chi!



*Blwyddyn 3 ar eu Cwrs Preswyl*

### Clod Technoleg Gwybodaeth

Mae'n bleser gennym gyhoeddi ein bod wedi derbyn clod yr ICT Mark am ddarpariaeth a safonau Technoleg Gwybodaeth yn yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r staff a'r plant!

# O Jerwsalem i Fethlehem - tro trwy'r Sblot

Faint mae'n cymryd i gerdded o Jerwsalem i Fethlehem? Penderfynais amseru'r daith y dydd o'r blaen ond doedd dim angen teithio i wlad yr addewid i wneud hynny. Doedd dim angen mynd ymhellach na'r Sblot er mwyn ceisio canfod yr ateb i'r cwestiwn a dysgu ychydig ynghylch pennod ddiddorol yn hanes y Gymraeg yn y ddinas.

Â gwreiddiau stori Bethlehem a Jerwsalem yng nghanol Caerdydd yn ôl i'r 1820au pan sefydlodd y Methodistiaid Calfinaidd a'r Annibynwyr eu hachosion Cymraeg cyntaf yng nghanol y dref fechan.

Tabernacl y Bedyddwyr yw'r unig un o'r tri sy'n dal i sefyll ar ei safle gwreiddiol. Yr hen Ebeneser sydd wedi ei gladdu o dan ganolfan Dewi Sant oedd caer yr Annibynwyr. Mae achos gyda ni o hyd, wrth gwrs, er yn byw bywyd crwydrol ar hyn o bryd.

Seion, ar safle'r hen lyfrgell yn yr Ais, oedd cadarnle'r Presbyteriaid. Fe werthwyd y safle i'r cyngor yn y 1870au a chodwyd capel Pembroke Terrace yn ei le. Caewyd drysau hwnnw am y tro olaf rhyw gant a deg o flynyddoedd yn ddiweddarach. Bwyty "Chapel 1877" yw'r adeilad bellach.

Yr hyn ddigwyddodd ar ôl sefydlu'r achosion gwreiddiol wnaeth fy arwain i'r Sblot. Roedd y tri enwad a'u llygaid ar ehangu ac aed ati bron yn syth i blannu achosion newydd wrth i'r dref dyfu. O edrych ar fap o'r achosion hynny mae'n ymddangos bod y tri enwad yn chwarae rhyw gêm o wyddbwyll â'i gilydd. Os oedd un ohonynt yn agor achos newydd roedd y ddau arall yn saff o ddilyn, ac o bryd i'w gilydd fe fydd pobol Wesle yn hwpo'u trwynau mewn hefyd. Mae'n ddifyr ceisio dod o hyd i'r triawdau hyn yn y llyfrau hanes ac wrth fynd am dro. Dyna i chi Salem y Presbyteriaid, Salem y Bedyddwyr a Severn Grove yr Annibynwyr yn brwydro â'i gilydd yn Nhreganna. Yn Cathays roedd Minny Street a Heol-y-Crwys yn cystadlu am ddilynwyr tra bod Mount Stuart Square/Pomeroy Street, Bethania a Siloam i gyd yn ceisio achub eneidiau pobol y Dociau. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y Gymraeg ar draul yng Nghaerdydd a sawl achos wedi troi at y Saesneg ond fe ddaeth cyfle am un frwydr enwadol olaf ac yn y Sblot yr oedd honno i fod.

Roedd yr ardal yn datblygu'n gyflym ar y pryd wrth i weithfeydd haearn Dowlais adleoli o Ferthyr i Gaerdydd. Fe ddilynodd y gweithwyr y gwaith gan olygu bod rhai miloedd o Gymry Cymraeg yn ymsefydlu yn yr ardal. Am y tro olaf felly hogodd cadfridogion y Tabernacl, Ebeneser a Pembroke Terrace eu harfau a mentro mas i faes y gad. Ainon ar Walker Road oedd capel Cymraeg y Bedyddwyr. Roedd yn gapel dwyieithog erbyn 1911 ac yn gyfan gwbl Saesneg erbyn 1929. Caewyd y drysau yn 1975.

Mae'n sicr eich bod yn synhwyro erbyn hyn mai capeli oedd Jerwsalem a Bethlehem hefyd ac fe brofodd y ddau yn fwy gwydn nac o safbwynt y Gymraeg.



*Y Bethlehem a fu*



*Y Jerwsalem a fu*

Ar gornel Walker Road a Marion Street y safai Jerwsalem, capel y Presbyteriaid. Codwyd yr ysgoldy yn 1891 gyda Pembroke Terrace yn cwrdd â'r cyfan o'r gost o £500. Corfforwyd eglwys yn yr adeilad y flwyddyn ganlynol. Yn 1902 ychwanegwyd capel y festri ac mae'n amlwg fod yr achos yn un llewyrchus i ddechrau gyda'r cyfarfodydd agoriadol yn para pythefnos.

Byrhoedlog fu'r llwyddiant. Dyma ddisgrifiad Thomas Bowen, gweinidog a oedd yn aelod yn Pembroke Terrace, o gyflwr Jerwsalem yn 1926: "Ond odid i gynnydd yr iaith Saesneg yn y rhanbarth yma'n effeithio'n niweidiol ar yr achos... y mae'n glod nid bychan i'r brodyr a'r chwiorydd ffyddlon a ymlynai wrth yr achos pan nad oes fawr o obaith am gynnydd yma".

O fewn chwarter canrif i agor y capel roedd Jerwsalem ar ei liniau - ac nid mewn ffordd dda!

Bloc o fflatiau o'r enw "Walker Court" sydd ar y safle heddiw heb unrhyw beth i nodi bodolaeth Jerwsalem.

Beth am ei heglu hi o Jerwsalem i Fethlehem? Y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw troi'r gornel i mewn i Splott Road a cherdded rhyw dri chan llath nes cyrraedd Railway Street. Ar y ffordd mae dyn yn cerdded heibio i eglwys Anglicanaidd, capel Methodistaidd ac un arall eto o gapeli'r Bedyddwyr. Naill ai roedd pobl y Sblot yn rhyfeddol o dduwiol neu roedd yr enwadau'n wirion bost o uchelgeisiol wrth godi eu haddoldai! O droi i mewn i Railway Street mae bloc arall o fflatiau yn eich disgwyl. "Bethlehem Court" yw hwn – ac mae'r cliw yn yr enw! Sefydlwyd Bethlehem yn Ionawr 1896 pan gafodd 117 o aelodau Ebeneser eu rhyddhau i ffurfio'r eglwys newydd. Dyma ddywedodd H. M. Hughes, gweinidog Ebeneser am y digwyddiad: "Ni ddechreuodd eglwys erioed ar ei gyrfa dan amodau mwy hapus, a chyd rhagolygon disgleiriach, nag eglwys Bethlehem." Fe ysgrifennodd H. M. Hughes y geiriau hynny yn 1926 – yr un flwyddyn pan oedd Thomas Bowen yn tristáu ynghylch cyflwr Jerwsalem, ac mae'n ymddangos mai capel yr Annibynwyr oedd y cryfaf o'r ddau achos.

Mae gen i frith gof o helpu allan mewn ffair ysborion yn festri Bethlehem yn y saithdegau. Roedd cyflwr y lle'n weddol druenus erbyn hynny ond roedd yn amlwg wedi profi'n fwy gwydn na'r gystadleuaeth rownd y gornel. Rwy'n cymryd bod Bethlehem wedi cau tua'r un adeg pan gaewyd Severn Grove a dymchwel cartref gwreiddiol Ebeneser yn niwedd y saithdegau – cyfnod bach tywyll yn hanes Annibynia Caerdydd.

Os gofynnwch i mi pryd yn union caewyd Bethlehem ni fedraf ateb – ond gallaf ddweud wrthych chi i'r eiliad faint mae'n cymryd i gerdded o Jerwsalem i Fethlehem. Dau funud a deugain eiliad yw'r ateb.

**Vaughan Roderick**

# *Pobl Caerdydd* – Y Dinesydd Digidol

*Pobl Caerdydd* fydd enw papur bro digidol newydd ein Prifddinas – gyda'r is-deitl uchod yn ffurfio dolen â'r cylchgrawn hwn ac â'r traddodiad o greu a rhannu newyddion yn ein cymuned. Y bwriad yw cynyddu yn sylweddol y canran o'r 36,000 o siaradwyr Cymraeg yng Nghaerdydd sydd yn rhannu a defnyddio newyddion, gwybodaeth a sylwadau am eu cynefin. Gyda'r mwyafrif helaeth o'r gynulleidfa bosib dan 45 oed, bydd hynny yn digwydd mewn ffordd fywiog, gyfoes ac atyniadol gyda chryn ddefnydd o luniau, sylwadau ar fywyd y ddinas, a hiwmor.

Mae tîm o wirfoddolwyr wedi bod wrthi yn cynllunio cynnwys cychwynnol ac yn dylunio gwefan a rhwydweithiau cymdeithasol. Sali Collins ac Emma Meese, o Brifysgol Caerdydd, sydd yn cydlynu, ac mae gennym dîm comisiynu egnïol, brwdfrydig a thalentog yn ei le nawr. Yn eu mysg mae Gwenda Richards, sy'n gweithio yn y BBC; Rhys Lloyd, athro ac awdur; a Rhydian Bowen Phillips y cyflwynydd a'r cyfathrebwr.

Mewn cyfarfodydd llawn hwyl yn y Chapter mae syniadau'n byrlymu ar gyfer cynnwys ymysg y to ifanc o gyfranwyr. Wedi cychwyn cyhoeddi, y nod yw cael cymaint o bobl â phosib i gyfrannu yn ogystal â darllen. Byddwn yn arbrofi sut i wneud hyn yn Tafwyl ar 15 Mehefin gydag erfyn newydd, wedi ei ddatblygu gan Brifysgol Caerdydd, i alluogi pobl i anfon cynnwys yn gyflym a hawdd o'u ffonau, trwy eu tabled neu o gyfrifiadur gartref.

Cyhoeddiad digidol fydd hwn ond fe fydd peth o'r cynnwys a'r lluniau hefyd yn cael ei rannu gyda'r *Dinesydd* i'w hargraffu mewn print. Bydd linc i'r *Dinesydd* o wefan *Pobl Caerdydd* ynghyd â manylion tanysgrifio.

**Sara Moseley**
Cymrawd a Chyfarwyddwr Datblygu,
Yr Ysgol Newyddiaduraeth, Prifysgol Caerdydd

# CYFLEUSTER SYRFFIO DAN DO YN AGOR YM MAE CAERDYDD

Mae atyniad cyffrous diweddaraf y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol wedi agor yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd. Mae'r peiriant FlowRider newydd yn fodd i ddechreuwyr pur a syrffwyr profiadol syrffio dan do drwy gydol y flwyddyn. Mae'n sicr o fod yn atyniad poblogaidd arall ym Mae Caerdydd.

Wrth siarad yn agoriad y cyfleuster ddydd Gwener, dywedodd y Cynghorydd Russell Goodway, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Busnes a'r Economi Leol: "Syrffio dan do yng Nghanolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd yw'r rhan ddiweddaraf o ddatblygiad y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol, sef enghraifft wych o sut y mae Cyngor Caerdydd a'i bartneriaid yn cydweithio i wireddu gweledigaeth y ddinas ar gyfer adfywio'r hen ddociau, a chreu cyrchfan hamdden ffyniannus sy'n cynnig rhywbeth at ddant pawb.

Dyma'r unig gyfleuster Syrffio dan Do o'i fath yng Nghymru, a gall dechreuwyr a syrffwyr profiadol ei fwynhau. Gall dau berson gorff-fyrddio ar y FlowRider ar yr un pryd, felly gall ffrindiau a theuluoedd fynd benben yn erbyn ei gilydd mewn cystadleuaeth i ddofi'r dyfroedd. Cafodd tîm y ganolfan hyfforddiant arbennig fel y gallant gyfarwyddo syrffwyr a galluogi unigolion a grwpiau i fwynhau corff-fyrddio ar arwyneb meddal mewn amgylchedd diogel.

Fel rhan o'r lansiad, cafodd gwesteion arddangosiad o'r FlowRider gan syrffwyr proffesiynol gan gynnwys Pencampwr Flowrider Iau Ewrop Sam Atkins, Tom Booth, a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Flowrider Hŷn Ewrop, a Charlie Wright, a gyrhaeddodd rownd derfynol cystadleuaeth Corff-fyrddio Ewrop.

Ychwanegodd y Cynghorydd Goodway: "Mae Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd eisoes wedi cyflawni cryn dipyn ers agor yn 2010, gan ennill gwobrau a chynnal digwyddiadau rhyngwladol. Mae Syrffio Dan Do yn ychwanegu dimensiwn arall deniadol i'r ganolfan."

**Manylion Pellach**

Agorodd Canolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd dair blynedd yn ôl ac mae eisoes wedi sicrhau teitl "Cyfleuster y Flwyddyn" yn ôl prif gylchgrawn canŵio Prydain, cynnal Cwpan y Byd Canŵ Slalom yr ICF 2012, a denu pobl o bob rhan o'r wlad sy'n mwynhau chwaraeon dŵr. Mae hefyd yn cynnig man hyfforddi heriol sy'n addas i wasanaethau achub y Deyrnas Unedig gyfan.



*Sam Atkins, Pencampwr Ieuenctid Ewrop y Flowrider*

I drefnu sesiwn ar y peiriant syrffio dan do newydd, cysylltwch â thîm y Ganolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol ar **029 2082 9970** neu ewch i **www.dgrhc.com**

Cyfleuster dŵr gwyn ar alw yn y Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yw'r Ganolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol. Gellir rheoli llif y dŵr yno, felly gall anturwyr o bob gallu roi cynnig ar weithgareddau cyffrous gan gynnwys rafftio dŵr gwyn, caiacio ac afonfyrddio. Gellir cymryd rhan mewn amrywiaeth o chwaraeon padlo yn yr ardal dŵr llonydd hefyd.

* Prisiau Syrffio dan do o £25 y pen am sesiwn awr a hanner.
* Darperir yr holl gyfarpar arbenigol.
* Dim cyfyngiad oedran: Cyfyngiadau taldra -
  I gorff-fyrddio rhaid i chi fod – o leiaf 42"
  I syrffio gan sefyll ar eich traed – o leiaf 52"

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

**Mob ar ddihun**

Chwara teg i griw y Mob, lwyddodd i aros ar ddihun o 9:00 nos Wener 10 Mai i 9:00 y bore 11 Mai. Pam? Wel, fel rhan o weithgaredd yr ieuenctid i godi arian i'r Stafell Fyw. Cafwyd lot o hwyl yn chwarae gemau heriol i'r meddwl, fel bod neb yn cysgu ar eu traed – gan gynnwys y tri goruchwyliwr! Nid yw'r swm a gasglwyd wedi'i hel at ei gilydd eto, ond yn debygol o fod yn deilwng o edrych ar nifer y noddwyr. Diolch am ymroddiad a brwdfrydedd yr ieuenctid bob amser.

**21 mlynedd**

Na, nid penblwydd fel y cyfryw, ond diwedd cyfnod o waith ymroddgar a diflino Eira Jones fel cofnodydd cyfarfodydd y diaconiaid. Mae'r llyfrau cofnodion yn werth i'w gweld a'r sgrifen yn raenus fel *copperplate*! Penderfynodd Eira rai misoedd yn ôl ei bod yn amser iddi drosglwyddo'r fantell. Ar fore Sul 12 Mai cyflwynwyd cadwyn aur ac arni lwy garu fach i Eira, fel arwydd o'n cariad a'n gwerthfawrogiad. Diolch Eira!

**Cynger-dda!**

Ar nos Fercher 22 Mai fe'n diddanwyd gan Gôr Caerdydd, Bethan Semmens ar y delyn a Nia Williams ar y soddgrwth. Daeth dau unawdydd hefyd o Goleg Cerdd a Drama i feithrin a dangos eu dawn. Mewn cyngerdd amrywiol cafwyd cymysgfa o'r clasurol a'r modern. Aeth yr elw cyfan i'n helusen y Stafell Fyw.

**Cleifion**

Clywsom yn ddiweddar fod Tecwyn Dafydd, mab Allan a Mari Davies wedi bod mewn uned gofal dwys yn Llundain o ganlyniad i salwch. Y mae bellach yn ymgryfhau. Braf oedd cael croesawu Beti Jones, Cyncoed, yn ôl i'r cwrdd ar ôl cyfnod o salwch.

**Llongyfarchiadau**

...i Lisa Mair a Steven James ar enedigaeth mab. Ganwyd George William Norman ar Sadwrn 25 Mai yn ŵyr i Arwel ac Eleri Peleg Williams. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

## Bethel, Rhiwbeina

Llongyfarchiadau mawr i ddau o fechgyn Bethel, Lewis a Sylvan, am fod yn aelodau o dîm llwyddiannus Ysgol Glantaf yn rownd derfynol cystadleuaeth Rygbi Ysgolion Cymru.

Roedd y capel yn orlawn pan gynhaliwyd cyngerdd gan Aelwyd y Waun Ddyfal. Trefnwyd y cyngerdd gan Gymdeithas Gymraeg Rhiwbeina ac aeth yr elw i *Shelter Cymru*.

Croesawyd aelod newydd, Mrs Carol O'Donnell. Pob bendith iddi hi yn ein plith.

Llongyfarchiadau i Miriam Hopwood, wyres Mr Eifion Hopwood, ar gwblhau yn llwyddiannus y cwrs i fod yn feddyg. Pob dymuniad da i Dr. Miriam yn y dyfodol.

## Salem, Treganna

**Adran yr Urdd, Salem**

Yn dilyn llwyddiant yr eisteddfod, daeth yr adran at ei gilydd yn ystod y mis i gael sesiwn dawnsio gwerin.

**Clwb Coffi a'r Clwb Brecwast**

Cyfarfu'r clwb brecwast yn ystafell Edwin ddwywaith yn ystod y mis, a'r clwb coffi, am sgwrs a chwmnïaeth.

**Clwb Llyfrau**

Cyfarfu'r clwb llyfrau i drafod 'The Unlikely Pilgrimage of Harold Fry' gan Rachel Joyce.

**Clwb Cerdded**

Bu'r clwb cerdded am dro yng Ngwlyptiroedd Casnewydd ar y 24ain o Fai. Cawsom dro mewn ardal o harddwch naturiol hyfryd.

**Clwb Criced**

Chwaraeodd tîm criced Salem yn erbyn tîm Plasmawr yn ystod y mis. Noson hwyliog braf! Yn anffodus bu'n rhaid canslo un gêm oherwydd y tywydd. Cofiwch ddod i'n cefnogi!

**Cyfraniad Roger Boore i waith yr Eglwys**

Cafwyd tysteb a gair o werthfawrogiad i waith Roger Boore fore Sul y 19eg o Fai, am ei waith diflino fel trysorydd yr Eglwys am dros 20 mlynedd. Rydym yn ddiolchgar iddo am ei gyfraniad a'i gymorth anferth dros y blynyddoedd.



*Y Parch Evan Morgan a Roger Boore*

## Tabernacl

**Dadorchuddio Cofeb i weinidogion yr eglwys.**

Bu'n rhan o gynllun pwyllgor Dathlu'r 200 i godi cofeb yn nodi enwau'r gweinidogion a fu yn yr eglwys o'r cychwyn. Dadorchuddiwyd hi yn mis Ebrill, a gofynnwyd i Beryl Eurig Evans, yng nghwmni Hawys Elen Jones, i gyflawni'r weithred syml honno. Ar y garreg gwelir yr adnod o'r bennod gyntaf o 1 Corinthiaid "Eithr nyni, pregethu ydym Grist wedi ei groeshoelio". Dyma sylwadau gwerthfawrogol Margaret Raymond Williams –

*"Credwn fod y garreg hyfryd yn un deilwng i anrhydeddu ymdrech holl weinidogion y Tabernacl hyd at heddiw, gyda digon o le i'r dyfodol."*

**Llongyfarchiadau**

Nodwn fod Howard Evans, Athro Emeritus yn yr Ysgol Feddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd, wedi ei ethol yn Gymrawd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru (Fellow of the Learned Society of Wales). Cydnabyddiaeth yw hyn o'i waith rhyngwladol dros y blynyddoedd ar bwysigrwydd cyfathrebu rhwng celloedd a'r problemau clinigol sy'n gysylltiedig.

**Bore Coffi**

Diolch i Illtyd a Julia Lloyd am ein croesawu i'w haelwyd ym mis Ebrill a hefyd i Diana Owen gan i ni ymweld â'i chartref ar fore Mercher 15[fed] o Fai ym Mhenarth.

**Banc Bwyd Caerdydd**

Derbyniwyd gwerthfawrogiad o gefnogaeth aelodau'r eglwys i Fanc Bwyd Caerdydd a byddwn yn ceisio cadw at y drefn o gyflwyno'r cyfraniadau hyn ar ôl Sul Cyntaf bob mis. Am fwy o wybodaeth ceisiwch daflen o gyntedd y capel neu gysylltu gydag Eirlys Pritchard Jones neu Rhodri ab Owen.

**Cronfa'r Organ – Cyngerdd**

Ar y 10ed o Fai cynhaliwyd cyngerdd yn Festri'r Capel. Cafwyd noson fendigedig yng nghwmni'r Tri Samoad, dau denor ac un baritôn, sydd yn fyfyrwyr yn Academi Llais Ryngwladol Cymru. Roedd eu rhaglen yn hynod a ddifyr ac amrywiol. Cyn y canu, cawsom wledd o *lasagne* a noddwyd gan Giovanni's. Diolch iddyn nhw a'r tri unawdydd am noson arbennig a'u cefnogaeth i'r gronfa a elwodd dros fil o bunnoedd.

## Eglwys Dewi Sant

**Gwasanaeth Bedydd Esgob**

Cynhaliwyd gwasanaeth conffyrmasiwn fore'r Sulgwyn pan dderbyniwyd pump o ymgeiswyr yn aelodau llawn o'r eglwys, sef Alaw Davies, Jonah Griffiths, Miriam Griffiths, Jan Morgans a Pwyll ap Siôn. Daeth teuluoedd a chyfeillion y pump i'w cefnogi a chafwyd gwasanaeth cofiadwy. Y Parchedicaf Ddr. Barry Morgan, Archesgob Cymru, oedd yn llywyddu ac yn pregethu ar neges y Pentecost. Fe'n hatgoffodd o bwysigrwydd cyd-dynnu a deall ein gilydd drwy gymorth nerth yr Ysbryd Glân.

**Festri'r Pasg**

Cynhaliwyd Festri'r Pasg ddiwedd Ebrill pan etholwyd aelodau'r Cyngor Plwyf. Diolchwyd i Rhys Jones am ei waith diflino fel Warden y Ficer dros y deuddeng mlynedd ddiwethaf. Delyth Davies fydd yn ymgymryd â'r gwaith o hyn ymlaen ac etholwyd Rhian Linecar yn Warden y Bobl. Bydd Rhys yn parhau fel Trysorydd. Diolchwyd hefyd i Martin Rhisiart am ei waith cydwybodol fel Ysgrifennydd y Cyngor.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Thomas Brodie a Jennifer Wunn o Atlanta yn yr Unol Daleithiau ar eu priodas yn yr eglwys ganol Mai. Byddant yn ymgartrefu ym Merlin am flwyddyn o fis Medi, lle bydd Thomas yn gwneud gwaith ymchwil.

**Cyngerdd**

Cynhaliwyd cyngerdd gan Gôr Philharmonig Caerdydd pan berfformiwyd offeren gan Haydn – yr *Harmonie Messe*. Cafwyd datganiadau safonol gan yr unawdwyr a pherfformiad disgybledig gan y côr o dan arweiniad Alun Guy.

## Eglwys y Crwys

**Cydymdeimlo**

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf ag Osian a Fflur Rowlands ar golli eu mab bach Ioan. Mae'n meddyliau a'n gweddïau gyda hwy yn eu profedigaeth lem.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau cynnes i'r Athro Dr. John Gwynfor Jones ar gael ei ethol yn Llywydd Etholedig Cymdeithasfa'r De o Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

**Cyfarchion**

Dymunwn adferiad buan i Alun Jones a Nesta Lewis a gafod lawdriniaethau yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt.

**Yr Ieuenctid**

Cynhaliwyd gwasanaeth hyfryd iawn o dan ofal ieuenctid yr Eglwys. Thema'r gwasanaeth oedd 'digartrefedd'. Bu'r ieuenctid yn gweithio ar y prosiect hwn o dan arweiniad Aaron Evans, Robin Owen, a Bethan Rhys Roberts. Fel rhan o'r prosiect cafwyd ymweliad gan y newyddiadurwr, John Stevenson, a roddodd gyfweliad gonest a didwyll am ei brofiadau personol. Diolch iddo am ei gyfraniad gwerthfawr.


**Oedfa Gymun**

Braint oedd cael croesawu aelodau Eglwys Dewi Sant i Oedfa Gymun nos Sul cyntaf Mehefin. Pregethwyd gan y Parch Dyfrig Lloyd ynghyd â chydweinyddu'r Cymun â'r Parch Glyn Tudwal Jones.

**Y Gymdeithas**

Bu'r Gymdeithas ar ymweliad â Chanolfan y Mileniwm pryd y cafwyd ein tywys y tu ôl i'r llenni ac ymweld â Ty Cerdd. Roedd yn brynhawn llwyddiannus iawn a byddwn yn edrych ar y perfformiadau ar y llwyfan trwy lygaid gwahanol o hyn ymlaen. Yn dilyn cawsom bryd o fwyd yn 'Cote' a chyfle i gymdeithasu. Diolch i Peter a Catrin Rowlands am y trefniadau. Diolch iddynt hefyd am dymor o gyfarfodydd hynod o lwyddiannus. Pob dymuniad da i Gareth Rhys Davies fel Cadeirydd y Gymdeithas y tymor nesaf.

# DINESAIR Rhif 133




## Ar Draws

1. Dydd da a'r côr cymysg yn symud gyda'i gilydd (8)
5. Amser i fand Helga berfformio ar yn ail (4)
8. Lle i newid cyfeiriad (8)
9. Mae'n anniben yn stabl Eric (4)
11. A all ryw Anti ffel droi'n greadur enfawr? (7)
13. O! Diar, fe dorrodd y diwifr (5)
14. 'Gwaed ---- ---- ---- ---- y graith
    Na welir moni eilwaith' (JW) (1,5,1,4)
18. Symud deg o'r gwaelod (5)
19. Yr hyn a welir gan y golygydd bron yn gnewyllyn yr afal (7)
21. Gwartheg, 550 ohonynt mewn ymryson (4)
22. Un creulon yw Nia yn cefnu ar 1000 (2, 6)
24. Ateb negyddol roddwyd a gên gam (4)
25. 'Gwnes ----- fil
    I gadw'r llwybr cul'(MR) (8)

## I Lawr

1. Hanner ffordd rhwng dau le (6)
2. Gall digio achosi segurdod (5)
3. Y ffordd ymlaen! (4,6)
4. Cael braw gweld diwedd Cymro cryf iawn (3)
6. Teilwng yw Dylan bach o sefyll o flaen y bwlch (7)
7. Glöwr amloed ar yn ail sydd yn fwy na digon (6)
10. Mae band Al a gair am glebran (10)
12. Mae'r goets wedi dymchwel mewn amgylchiadau poeth (5)
15. Mae'n gampus o bob cyfeiriad ((7)
16. Dysga Daniel i ddal pysgod (6)
17. 'Roedd gwlith y bore ar dy foch
    Yn ----- arian, flodyn coch'(IDH) (6)
20. Hylif galar ar ddechrau'r dydd (5)
23. Gwasgu'r nofelydd am sudd (3)

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Gorffennaf.

**Enillydd Croesair Rhif 131 -**

**Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd**

**Atebion Rhif 131**

**Ar Draws** – 1. Cogio; 4. Colledig; 8. Dyledwr; 9. Gyrfa; 10. Nythu; 11. Deg; 12. Lludw; 15. Ffynnon; 16. Pastwn; 19. Dwbl; 21. Sŵn; 22. Bore; 26. Goror; 27. Arsyllwr; 28. Unawdydd; 29. Ysgall

**I Lawr** – 1. Cwdyn; 2. Gwlithen; 3. Oedi; 4. Carthen; 5. Llogi; 6. Darfu; 7. Gwanwyn; 13. Eos; 14. Llac; 15. Ffedogau; 17. Troellog; 18. Gwraidd; 20. Berfa; 23. Ebrill; 24. Brad; 25. Aswy

# Newyddion o'r Eglwysi *(Parhad)*

## Minny Street

### Cyngerdd Tecwyn Ifan

Bu Cyngerdd Tecwyn Ifan i godi arian tuag at Cymorth Cristnogol yn llwyddiant mawr, gyda'r hen ffefrynnau i gyd yn cael eu canu a'r gynulleidfa'n ymuno yn y gytgan. Diolch am noson dda er budd elusen haeddiannol.

### Yr Awr Dawel

Fe ddechreuodd y gweinidog gyfres o chwech o gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar ymdawelu o sŵn y byd am 6 munud, wedyn 12 munud ac yn y blaen nes cyrraedd Awr Dawel. Rydan ni i fyny at 36 munud erbyn hyn a phawb yn cael budd mawr ohono.

### Neges Trydar @MinnyStreet

Mae trydar yr eglwys @MinnyStreet yn cael mwy a mwy o olynwyr bob mis. Dilynwch y trydar.

### Cegin Cynnen

Bwriad y cyfarfodydd defosiynol hyn yw cofio, mewn gweddi, gwlad neu ardal sydd yng nghanol rhyfel neu drais, cyn profi ychydig o fwydydd y wlad neu'r ardal arbennig honno. Syria oedd y wlad y mis yma.

### Gair y Dydd

Ym mis Mai fe ddechreuodd y gweinidog gyfres o Fyfyrdodau Gwefan ac maent wedi profi'n boblogaidd iawn.

### Ein gwefan

Cofiwch ymweld â'n gwefan ar www.minnystreet.org am fwy o fanylion am weithgareddau'r eglwys.

# Calendr y Dinesydd • Mehefin-Gorffennaf

**Mawrth, 11 Mehefin**
Merched y Wawr Caerdydd. Noson Ryseitiau a Chyfarfod Blynyddol, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed, am 7.30pm.

**Mercher, 12 Mehefin**
Seminar: 'Deddf Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg 1563', yn neuadd Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, 2.00–4.15 pm. Croeso cynnes i bawb. Manylion pellach gan E. Gwynn Matthews (029-2056-2880).

**Iau, 13 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Trafod heddychiaeth yng nghwmni'r Parchedigion Guto Prys ap Gwynfor ac Owain Llŷr Evans a'r Uwchgapten Alun Davies, yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30pm.

**Gwener, 14 Mehefin – Gwener, 21 Mehefin**
TAFWYL

**Gwener, 14 Mehefin**
Clwb y Diwc. Noson Agoriadol Tafwyl 2013: Maffia ac Y Bromas yn y Duke of Clarence, Clive Road, Treganna am 8.00pm.

**Sadwrn, 15 Mehefin**
Bore coffi i ddysgwyr rhwng 10.30 a 12.00. Sgwrs gan Amanda Griffiths am 11.00am am Langyndeyrn. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 15 Mehefin**
Prif ddigwyddiad Tafwyl yng Nghastell Caerdydd.

**Llun, 17 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cyfarfod Blynyddol. Noson yng nghwmni'r nofelydd a'r bardd, Catrin Dafydd, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30pm.

**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Te Pen Tymor a Chyfarfod Blynyddol, yn festri Capel Minny Street am 2.00pm.

**Mercher, 19 Mehefin**
Cymdeithas Carnhuanawc. Helfa Drysor Tafwyl. Cyfarfod wrth ddrysau Llyfrgell Ganolog Caerdydd ar yr Ais am 6.30pm.

**Sadwrn, 22 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Bore coffi yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, rhwng 10.30 a 12.00. Yr elw er budd Shelter Cymru.

**Sadwrn, 22 Mehefin**
Gŵyl Ifan, Gŵyl ddawnsio gwerin i ddathlu canol haf. Gorymdaith ac arddangosfeydd dawnsio yng nghanol y ddinas trwy ddydd Sadwrn. Timoedd o bob cwr o Gymru ac o'r Iseldiroedd yn dod i ddawnsio yn ein prifddinas. Manylion pellach: 029-2056-3989 neu www.gwylifan.org.

**Mercher, 3 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Taith Haf.

**Sul, 7 Gorffennaf**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Cymanfa Ganu. Arweinydd: Emyr Roberts. Organydd: Dr Alun Jones. Yng nghapel Beulah, Rhiwbina, am 8.00pm.

**Gwener, 2 Awst — Sadwrn, 3 Awst**
Sioe Igam Ogam yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm, am 10.00am ddydd Gwener ac am 1.00pm ddydd Sadwrn. Manylion pellach: 029-2063-6403; nia.jones@wmc.org.uk; www.wmc.org.uk.

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ
Ffôn: 029-2062-8754;
Ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk


# Y Dinesydd

Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch yn cynnwys Bro Morgannwg

## TELERAU HYSBYSEBU 2013 - 2014

| | | | |
|---|---|---|---|
| Tudalen gyfan A4 | 18 x 28cm | £120 | Lliw £150 |
| Hanner tudalen | 18 x 14cm | £60 | Lliw £80 |
| Chwarter tudalen | 9 x 14cm | £30 | Lliw £50 |
| Wythfed tudalen | 9 x 7cm | £20 | Lliw £30 |
| Bocs | 6 x 6cm | £15 | Lliw £25 |

*Ceir gostyngiad o 10% am hysbysebu mewn tri rhifyn dilynol.*

Anfonwch arlunwaith yr hysbyseb ar ffurf **jpeg** neu **pdf** drwy e-bost i db.james@ntlworld.com
neu, os dymunwch, anfonwch y **geiriad yn unig**, gan nodi maint y bocs yn ôl y tabl uchod.

Am osod taflen rydd o fewn Y Dinesydd gall y telerau amrywio o £50 i £200 – yn dibynnu ar y pwysau.

**Rhaid derbyn hysbysebion erbyn y 25ain o'r mis a bydd y rhifyn yn ymddangos ar y 10fed o'r mis canlynol.**
**[Does dim rhifyn ym mis Awst na mis Ionawr.]**


# ARDDANGOSFA GALLERY/TEN

Cyflwyna Gallery/ten arddangosfa undyn o waith newydd a diweddar gan Carwyn Evans, mewn cydweithrediad â Chanolfan Mileniwm Cymru.

Cynhelir yr arddangosfeydd rhyngddibynnol hyn dros ddau leoliad, gan neilltuo eu hunain i ddwy o nodweddion cysylltiol yng ngwaith Evans. Mae 'i' yn Gallery/ten yn trafod agweddau o'r cartref, gyda gwaith ceramig, cerflunwaith a phrintiau sy'n adlewyrchu'r 'perfedd' a 'threulio', gan ehangu ar y cysylltiad dychmygus rhwng ddiwylliant a'r corff - yn bennaf y system dreulio. Mae 'o' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yn edrych ar y tir, perthynas dyn â natur a'r croesdoriad lle cwrdd natur â diwylliant, drwy gyfres o osodiadau topograffig safle-benodol.

Yr arddangosfa 2 ran hon yw sioe unigol gyntaf Evans ers achosi cynnwrf ar ôl ennill y fedal aur am gelfyddyd gain yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2012. Yn olraddedig o Goleg Celf Brenhinol, mae Evans wedi arddangos ledled y de ac yn rhyngwladol, gan gynnwys Oriel Fraser, Oriel Mostyn ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru, ac mae'n datblygu i fod yn un o artistiaid ifanc mwyaf addawol Cymru.

'i' yn Gallery/ten o 14 Mehefin – 13 Gorffennaf

'o' yng Nghanolfan Mileniwm Cymru o 7 Mehefin – 26 Awst

Bydd yr holl waith ar werth a chynllun casglu ar gael. Am fwy o wybodaeth am yr artist gwelwch wefan yr Oriel www.gallery-ten.co.uk

**Cat Gardiner**

# HYSBYSEBION

Mae'r Dinesydd yn awyddus i gael cymorth rhywun i fod yn gyfrifol am hysbysebion.

Os hoffech ein helpu, byddai Bryan James yn falch o gael sgwrs â chi - 029 20 566731 neu cysylltwch ar db.james@ntlworld.com

Gellir trefnu comisiwn.

# AELWYD HAMDDEN CYMRY CAERDYDD

Cyfarfu'r Aelwyd bob yn ail brynhawn Mercher yn ôl yr arfer, yn ystod y Gwanwyn, a chafwyd cyfarfodydd amrywiol a difyr. Ar Fawrth 20fed y siaradwr oedd Mr Gwyn Matthews, a aeth â ni nôl i fro ei febyd yn Ninbych, ac i'r 16eg ganrif. Mewn sgwrs fyrlymus rhoddodd inni ddarlun byw o fywyd lliwgar Catrin o Ferain, y cyfeirir ati'n aml fel "Mam Cymru", oherwydd ei chysylltiad â chynifer o gymeriadau dylanwadol ein hanes.

Llyr Gwyn Lewis, y llenor ifanc dawnus o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, fu'n ein diddanu ar Ebrill 24ain drwy gyflwyno darnau o'i waith, yn farddoniaeth a rhyddiaith. Roedd ei waith yn adlewyrchu ei ddiddordebau eang, a'i ymchwil hynod ddiddorol yn cymharu gweithiau llenyddol T. Gwynn Jones a W. B. Yeats, i iaith y Romani, ac i'w gefndir teuluol ym Maldwyn a Chaernarfon. Dymunwn yn dda iddo yn ei swydd newydd yn Adran y Gymraeg Prifysgol Abertawe.

Ar Fai 8fed bydd Derith Rhisiart yn trafod ei gwaith fel cydlynydd codi arian gyda Chanolfan y Wallich. Sefydlwyd yr elusen yn Llundain yn y chwedegau gan weithiwr cymdeithasol, Anton Wallich Clifford, i estyn cymorth i'r digartref. Erbyn hyn lledodd yr elusen, a adwaenir bellach fel y Wallich, i gynnal hosteli i'r digartref trwy wledydd Prydain. Mae'r pencadlys lleol yn Heol y Gadeirlan, Pontcanna, yn awyddus i dderbyn rhoddion megis dillad plant, dillad gwely a nwyddau ymolchi, a all fod o gymorth i'r digartref.

Bu'n rhaid gohirio'r daith i ymweld ag Eglwys Llancarfan ar Fai 22ain gan fod yr eglwys ar gau i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Bwriedir ail-drefnu'r daith yn gynnar yn nhymor yr Hydref.

**Menna Brown (Is-Ysgrifennydd)**

# Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina

## Aelwyd y Waun Ddyfal

Ar nos Lun, 20 Mai, o flaen cynulleidfa frwd, werthfawrogol, cafwyd noson ardderchog gan aelodau Aelwyd y Waun Ddyfal i godi arian at ddewis-elusen y Gymdeithas eleni, *Shelter Cymru*. Roedd hi'n noson o amrywiaeth gerddorol, yn unawdau gan Gareth Jones a Rhys Griffiths, triawd yn canu *Blodwen a Mary*, parti bechgyn yn canu *Flat Huw Puw* ac *Ar lan y môr*, unawd trymped gan Steffan Watkins a chôr yn canu darnau mor amrywiol â *Chân y Jolly Roger* a'r *Tangnefeddwyr* ac yn cyrraedd yr uchelfannau gyda dilyniant o ganeuon *Gospel*, dan arweinyddiaeth Huw Foulkes. Y cyfeilydd dawnus oedd Ieuan Jones. Fe swynodd pawb â'i iodlo hefyd! Codwyd £315 at Shelter Cymru y noson honno.

Bydd y Gymdeithas yn cynnal Bore Coffi at yr un achos yn festri Capel Bethany fore Sadwrn, 22 Mehefin am 10:30.

Fel rhan o ddathliadau canrif oddi ar sefydlu Pentre Gerddi Rhiwbeina, bydd Gwilym Roberts yn tywys grŵp o gwmpas y tai lle'r arferai rhai o enwogion llenyddol Cymru fyw. Er enghraifft, bu R. T. Jenkins, Kate Roberts ac Iorwerth C Peate, ymysg eraill, yn byw yn y pentre gerddi. Bydd y daith yn cychwyn am 10:30 y bore, ddydd Mercher 3 Gorffennaf, o Lyfrgell Rhiwbeina. Mae croeso i'r di-Gymraeg.



*Aelwyd y Waun Ddyfal yng Nghymdeithas Gymraeg Rhiwbeina*

**Lona Roberts**






# Merched y Wawr Bro Radur

Nerys Howell, perchennog cwmni Ymgynghoriaeth Bwyd Howell oedd y siaradwr ym mis Mai. Bydd nifer o ddarllenwyr yn cofio ei cholofn boblogaidd o ddanteithion newydd a chyffrous a ymddangosodd yn y *Dinesydd*. Ers 1996, yn ogystal â chyflwyno eitemau bwyd a diod yn y cyfryngau cafodd gyfle i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru. Gwelodd gyfle i ehangu a chyfrannu'n sylweddol at y gwaith drwy sefydlu ei chwmni ei hunan yn 2005. Clywsom am ystod eang o wasanaethau yn ymwneud â bwyd, fel creu a phrofi ryseitiau i gwmnïoedd a datblygu bwydlenni Cymreig ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau dros y byd. Paratowyd cwis hwyliog gan Nerys ar gyfer deugain o aelodau, a chyflwynwyd copi o'i llyfr 'Cymru ar blât' i'r enillwyr.



*Jackie James, Nerys Howell a Nan Rees*

**Eleri Jones**

# CHWARAEON

## CLWB CYMRIC

Ar ddydd Sadwrn Mai 18fed cafwyd diwrnod a noson i'w cofio wrth i Glwb Cymric ddathlu diwedd tymor hanesyddol.

Yn haul y prynhawn cafwyd gemau rhwng y timau presennol a thîm y "Lejynds", sef cymysgedd o gyn-chwaraewyr dros y blynyddoedd. Cafwyd digon o hwyl ar gae Cwrt-yr-Ala, a 'chydig o sioc hefyd yn y gêm ola wrth i dîm y Lejynds guro'r tîm cyntaf o un gôl i ddim, Carl Roberts yn sgorio â'i ben o groesiad Guto "Chico" Hughes.

Ymlaen i'r dathliadau yn y nos, ac roedd parti yng ngwesty'r Park Plaza yng Nghaerdydd yng nghwmni gwestai arbennig iawn, sef Ian Gwyn Hughes a Chris Coleman.

Roedd digon i'w ddathlu gan fod y ddau dîm wedi cael tymor llwyddiannus iawn, wrth i'r clwb fynd o nerth i nerth eleni. Cafwyd dyrchafiad i'r tîm cyntaf am yr ail dymor yn olynol wedi gorffen yn ail yn Ail Adran Cynghrair Amatur De Cymru, a'r tymor nesa bydd Clwb Cymric yn chwarae ar y safon ucha erioed yn hanes y clwb. Ail yn eu hadran hefyd oedd yr ail dîm, hwythau yng



*Osian Pritchard yn derbyn gwobr Prif Sgoriwr y tîm cyntaf*








*Pwyllgor Clwb Cymric gyda Chris Coleman (o'r chwith i'r dde) Tom Pritchard, Rob Gaffey, Dan Rogers, Chris Coleman, Stuart Williams, Mei Tomos, Rhodri Charles, Steffan Phillips*

Nghynghrair Caerdydd a'r Cylch - tymor gorau'r tîm ers sawl blwyddyn.

Profiad arbennig oedd cael rheolwr y tîm cenedlaethol yn cyflwyno'r gwobrau ar ddiwedd y tymor, gyda'r enillwyr fel a ganlyn:

Tîm Cyntaf:

Chwaraewr y Flwyddyn: Rob Davies

Chwaraewr y Chwaraewyr: Osian Pritchard

Prif Sgoriwr: Osian Pritchard

Ail Dîm:

Chwaraewr y Flwyddyn: Rhodri "Vince" Williams

Chwaraewr y Chwaraewyr: Geraint "G" Roberts

Prif Sgoriwr: Dyfan Jones



*Mei Tomos yn derbyn Tlws Carwyn*

Yn olaf cafodd Tlws Carwyn ei gyflwyno, sydd wedi ei enwi ar ôl y cyn-chwaraewr Carwyn Thomas a fu farw'n ifanc yn ôl yn 2006, y tlws ei hun yn rhodd i'r clwb gan deulu Carwyn er cof amdano. Yr enillydd oedd Mei Tomos, sef is-Gadeirydd ac un o gyd-reolwyr yr ail dîm, yn derbyn cydnabyddiaeth am flynyddoedd o wasanaeth ffyddlon i'r clwb.

Wedi'r gwobrwyo cafwyd cyfle i gwestiynu Chris Coleman ac Ian Gwyn Hughes, a'r ddau yn siarad yn arbennig o dda. Hoffai'r clwb ddiolch i'r ddau am wneud yr ymdrech i ymuno â ni ar y noson, a hefyd rhaid rhoi clod i Gymdeithas Bêl-droed Cymru am wneud hyn yn bosib.



*Chris Coleman yn mwynhau cacennau Clwb Cymric!*

Aeth y dathliadau ymlaen tan yr oriau mân, pawb yn mwynhau dathlu, nid yn unig llwyddiant y tymor diwetha ond hefyd dathlu hanes a diwylliant unigryw Clwb Cymric sydd yn gryfach nag erioed ar ôl mwy na deugain o flynyddoedd!

**Rhodri Charles**